Diweddariad Rheoli Prosiect – Derbynwyr Grant Llwybr 1 – Chwefror 2024

Adroddiadau gan gyfranogwyr – arfer da

Mae Taith yn defnyddio SharePoint i gasglu, darllen a dadansoddi data eich adroddiad. Mae gan SharePoint nifer o systemau cefndir sy'n galluogi hyn, ac mae angen i'r data gael ei fewnbynnu a'i rannu'n uniongyrchol i'r system. Felly, hoffen ni atgoffa pawb sy'n derbyn grant **i beidio ag uwchlwytho eu taenlenni eu hunain neu newid enw'r offer adrodd**. Mae'r achosion hyn yn creu llanast gyda'r system a gallai hyn arwain at ddata'n cael ei ddyblygu, ei golli, neu at y system yn stopio gweithio. Hefyd, peidiwch â newid unrhyw gwestiynau a phenawdau colofn yn eich adroddiad gan fod hyn hefyd yn amharu ar y system.
Bydd hyn yn dod yn fwyfwy pwysig wrth i ni ddechrau ehangu'r defnydd o'ch ffolderi adrodd gyda'r broses ceisiadau newid newydd. (Gweler bwletin mis Rhagfyr am ragor o wybodaeth).

Anfonwch e-bost at cefnogaeth@taith.cymru os oes gennych chi unrhyw gwestiynau pellach am hyn.

Cysylltu â'r Blwch Post Cymorth

Gan fod gan rai Derbynwyr Grant fwy nag un prosiect Taith, wrth anfon e-bost at y blwch post cymorth@taith.cymru, a fyddech cystal â nodi rhif cyfeirnod eich prosiect ym mhennawd pwnc yr e-bost, os gwelwch yn dda? Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i dîm Taith adnabod eich prosiect ac ateb eich ymholiad.

Cynnwys cyfryngau cymdeithasol

Rydym wrth ein bodd yn rhannu straeon sy'n arddangos y cyfnewidiadau anhygoel y mae arian Taith wedi'u galluogi, ac rydyn ni bob amser yn chwilio am gynnwys i hyrwyddo'r effaith y mae'r profiadau hyn yn ei chael ar gyfranogwyr. Gall hyn fod yn ffynhonnell ysbrydoliaeth i ddysgwyr a phobl ifanc eraill ar draws Cymru ac mae'n ffordd effeithiol o hyrwyddo Taith. Hoffen ni annog pob Derbynnydd Grant i rannu cynnwys am eu prosiectau a ariennir gan Taith trwy eu sianeli cyfryngau cymdeithasol. Os gwelwch yn dda, sicrhewch fod y cynnwys yn canolbwyntio ar elfennau dysgu'r cyfnewid (ffurfiol, anffurfiol a heb fod yn ffurfiol) er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth posibl ynghylch ffocws prosiectau addysgol a ariennir gan Taith.

Sesiynau cymorth misol ar gyfer Derbynwyr Grant Llwybr 1

Bob mis, mae tîm Taith yn cynnal sesiynau galw heibio ar gyfer Derbynwyr Grant Llwybr 1 o'r sectorau Ysgolion, Ieuenctid, Addysg Oedolion ac Addysg Bellach. Sesiynau anffurfiol yw'r rhain lle gallwch gwrdd â Derbynwyr Grant Taith eraill a thrafod unrhyw ymholiadau sydd gennych chi gyda'r tîm. Byddwn yn cynnal y sesiwn nesaf ar gyfer derbynwyr Llwybr 1 ddydd Llun 18 Mawrth am 12.30-13.30pm. Gallwch weld y ddolen gofrestru i'r sesiwn yma.

Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau Cyllid Ychwanegol

Hoffen ni atgoffa pawb sy'n derbyn grant bod **rhaid** cyflwyno ceisiadau am Gyllid Ychwanegol **o leiaf 30 diwrnod cyn** i'r symudedd ddechrau. Er y gallai ceisiadau blaenorol fod wedi'u cymeradwyo yn ôl disgresiwn tîm Taith, o'r dyddiad hwn ni fydd Taith yn ystyried

cyflwyniadau hwyr mwyach – ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, megis lle na ellir bod wedi rhagweld y cais.

Dylid cyflwyno ceisiadau am arian ychwanegol drwy'r Cais am Arian Ychwanegol ar gyfer yr Ardal Derbynwyr Grantiau.

Sector Ysgolion

Cystadleuaeth Pasg ar gyfer ysgolion

Gyda'r Pasg ar y gorwel mae gennym gystadleuaeth gyffrous yn arbennig ar gyfer disgyblion sydd wedi cymryd rhan mewn ymweliad Taith. Rydyn ni bob amser yn mwynhau clywed am eich profiadau o'ch prosiectau Taith, ond bydden ni wrth ein bodd yn gweld beth mae Taith wedi'i olygu i'r disgyblion yn eich ysgol. Rydyn ni'n gofyn i ddisgyblion greu rhywbeth sy'n symbol o foment arbennig o fewn eu profiad Taith (fel profiad cyntaf o hedfan, gwneud ffrindiau newydd, rhoi cynnig ar weithgareddau newydd). Gall hyn fod yn unrhyw beth o lun i gerdd, neu collage neu baentiad, cân neu stori, neu rywbeth arall hollol unigryw. Gall hyn fod o unrhyw faint, felly mae croeso i chi fod yn greadigol. Cyfyngwch eiriau i ddim mwy na 500.

Bydd y ceisiadau a dderbynnir yn cael eu harddangos ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol Taith a bydd enillydd y gystadleuaeth yn cael ei ch/gyhoeddi ar 14 Mawrth 2024. Bydd yr enillydd a ddewisir wedyn yn derbyn danteithion Pasg gan dîm Taith (trafodir anghenion deiet gyda'r ysgol i sicrhau bod y wobr yn addas).

Gallwch chi e-bostio ceisiadau i Taith yn ymholiadau@taith.cymru neu drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Y dyddiad cau yw 11 Mawrth 2024 am 4yp.

Rydym yn croesawu eich adborth

Rydym bob amser yn croesawu eich adborth am y prosesau a'r adnoddau mae Taith wedi eu creu i'ch cefnogi i gyflawni eich prosiectau - beth sy'n gweithio'n dda, beth allen ni ei wella, beth allen ni ei ddatblygu. Anfonwch eich syniadau atom ni drwy cefnogaeth@taith.cymru Os yw'n haws, byddwn ni'n hapus i drefnu galwad neu gyfarfod gyda chi.